



Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Canllaw i staff ac aelodau

Pam cael y canllaw yma?

Mae CICau yn cydnabod, yn parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein haelodau, staff, partneriaid a chymunedau.

Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau neu unigolion mewn cymdeithas heb gydraddoldeb ar sail hil, rhyw, statws priodasol/partneriaeth sifil, cyfrifoldebau gofalu, anabledd, ailbennu rhywedd, oedran, dosbarth cymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd/cred neu seiliau amhriodol eraill ac rydym yn ymrwymedig i oresgyn anghyfartaledd o'r fath yn ein gwaith.

Rydym yn croesawu'r gofynion statudol yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cynnwys y Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru.

Mae CICau yn gyrff sydd yn cael eu harwain gan bobl sydd bob amser yn gorfod sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu cymunedau .

Ymrwymiad

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i waith CICau.

Fe fydd CICau yn trin pob person gydag urddas a pharch, gan werthfawrogi amrywiaeth pawb. Fe fyddan nhw'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Fe fyddan nhw'n dileu pob ffurf ar wahaniaethu ar sail hil, rhyw, statws priodasol/partneriaeth sifil, cyfrifoldebau gofalu, anabledd, ailbennu rhywedd, oedran, dosbarth cymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd/cred neu unrhyw factor arall sydd yn amherthnasol i bwrpas eu gweithgareddau.

Fe fyddan nhw'n gweithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael gydag eithrio, anghyfartaledd, gwahaniaethu ac anfantais wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau GIG.

Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol bod yr holl staff ac aelodau yn ymrwymedig i weithio yn unol gyda'r canllaw yma.

Mae gan CICau rôl allweddol mewn sicrhau bod barn pawb yn cael eu cynrychioli wrth galon datblygiadau newydd a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu grymuso i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau ar gyfer GIG modern.

Rydym yn gwybod bod rhaid i amrywiaeth a chynhwysiant fod yng nghanol popeth a wnawn a bod rhaid i'n gweithgareddau roi llais cyfartal yn eu GIG i bawb.

Amcanion

- Gweithio gydag eraill i ddarganfod gwell ffyrdd o glywed gan bawb, yn cynnwys y rhai sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf hyglwyf a'r rhai na fyddai eu lleisiau fel arall yn cael eu clywed .
- Addasu ein dulliau gweithredu a datblygu ein hadnoddau a'n gwasanaethau i sicrhau eu bod yn hygyrch, ar gael ac yn berthnasol yn eang.

- Datblygu ein cynlluniau gyda'n cymunedau a gyda'n partneriaid fel eu bod yn canolbwyntio ar y pethau sydd yn cyfrif fwyaf ac sydd â'r cyfle gorau i wneud gwahaniaeth.
- Adeiladu ar bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli a chreu rhai newydd lle mae cydweithio yn cynyddu ein siawns o wneud gwahaniaeth.
- Sicrhau bod ein haelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth yn y cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli a'u cefnogi. Fe fyddwn yn monitro ein haelodaeth yn rheolaidd ac yn datblygu dulliau wedi'u targedu a mwy cynhwysol o recriwtio aelodau newydd fel ein bod yn dod yn fwy cynrychioliadol.

Cyfrifoldeb

Mae'r canllaw yma yn cynnwys ymddygiad pawb a gyflogir neu sydd yn gwrifoddoli mewn CICau ac mae'n nodi'r ffordd y gallan nhw gael eu trin gan CICau yn eu tro. Cyfrifoldeb y Prif Swyddogion a'r Pwyllgorau Gwaith ydy sicrhau bod y canllaw hwn yn cael ei ddilyn a'i weithredu.

Dull Gweithredu

Mae CICau yn bwriadu gweithredu'r canllaw yma drwy:

Sicrhau bod staff ac aelodau yn ymwybodol o'r canllaw yma, yn ei ddeall, yn cytuno gyda ef ac yn fodlon ei weithredu;

Caiff yr holl staff a'r gwirfoddolwyr gopi o'r canllaw yma fel rhan o'u hanwytho;

Annog staff ac aelodau i gymryd rhan mewn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer hyfforddiant o'r fath;

Monitro'r gwasanaethau, gweithgareddau, cyhoeddusrwydd a'r digwyddiadau a ddarperir gan CICau, i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob adran o'r boblogaeth ac nad ydyn nhw'n gwahaniaethu, a chymryd camau gweithredol i sicrhau bod cyfranogiad yn gynrychioliadol.

Monitro ac Adolygu

Mae CICau wedi datgan eu hymrwymiad i sefydlu, datblygu, gweithredu ac adolygu cynllun ac adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Mae cadw cofnodion a monitro effeithiol a gweithredu ar yr wybodaeth a gasglwyd yn hanfodol er mwyn mesur effeithlonrwydd a chynllunio cynnydd.